

Tasg 4

Gemau ffantasi

1. Ydych chi'n chwarae gemau ffantasi ar y cyfrifiadur neu ar ap?
 - a. Trafodwch hyn mewn grŵp.
 - b. Gwnewch nodiadau yn eich llyfrau wrth i chi drafod.
 - c. Cymharwch eich syniadau chi fel dosbarth.

2. Beth ydy'ch hoff gêm ffantasi chi? Pam?

3. Ysgrifennwch adolygiad o'ch hoff gêm ffantasi. Dilynwch y fformat yma os ydych chi eisiau:

	← Enw'r gêm
	← Pa fath o gêm?
	← Beth sy'n digwydd?
	← Sut i chwarae?
	← Pa fath o gymeriadau?
	← Beth yn arbennig ydych chi'n hoffi?
	← Beth am berswadio pobl eraill i chwarae'r gêm?

wrth i chi drafod	as you discuss
adolygiad	review

4. Siaradwch am y gemau mewn grŵp.

Siaradwch am y gêm rydych chi wedi ysgrifennu amdani. Gofynnwch gwestiynau i bobl eraill am eu gemau nhw.

5. Beth am wneud arddangosfa o'r darnau yn yr ysgol, neu beth am lanlwytho'r adolygiadau ar wefan yr ysgol? Bydd pobl eraill eisiau darllen y darnau yma.

Geirfa

dilyn	(to) follow	amdani	about (it)
gwefan	website	arddangosfa	exhibition
darnau	pieces	lanlwytho	(to) upload